

papur priordy



***Gwawriodd y bore fel y dydd cyntaf,
Canodd y fronfraith foddus ei llef,
Diolch i lesu, mawl am bob bendith
A ddaw bob bore'n newydd o'r nef.***

Eleanor Farjeon (1881-1965) cyf. Nantlais (1874-1959)

*Dewiswyd gan Margaret Evans
Gweler y rheswm am ei dewis y tu mewn*

**Rhifyn 327
PAPUR TACHWEDD 2019**

Neges gan ein Gweinidog

Reffarî!

DO, bu'r wythnosau diwethaf yn rhai o gyffro mawr ym myd rygbi gyda chystadleuaeth Cwpan Rygbi'r Byd yn cael ei chynnal yn Tokyo.

Ni fu'r gystadeuaeth heb ei drama! Ac ymhlith y prif gymeriadau a ymddangosod ar lwyfan y ddrama oedd y reffarîs! Druan ohonynt yng nghanol berw'r cyffro, ac yn ceisio cadw trefn ar ddeg ar hugain o chwaraewyr cyhyrog a chwyslyd, gyda dim byd ond chwiban!



Fel ym mhob cystadleuaeth, mae ambell benderfyniad yn cael ei feirniadu gan rai, ac ambell garden felen yn destun siarad. Awn ni ddim i sôn yn awr am garden goch, penelin a chamera!

Rwy wastad wedi teimlo bod y reffarî yn edrych yn unig iawn ar gae rygbi ac eto, er iddo fod ar ei ben ei hun (heblaw am y TNA), mae ganddo awdurdod rhyfeddol yn ei feddiant. Dim ond fe all gychwyn ac oedi'r gêm a hynny drwy chwythu rhywbeth mor syml ac mor fach â chwiban.

Mae'r chwiban wedi bod mewn bodolaeth ers miloedd o flynyddoedd. Yn wreiddiol, roedd yn cael ei greu o asgwrn neu bren.

Yn y flwyddyn 1883, gosododd Heddlu'r Metropolitan yn Llundain gystadleuaeth i gynllunio ffordd well o ddenu sylw'r cyhoedd. Roedd yn arfer ganddynt ddefnyddio ratls er mwyn gwneud hynny. Enillwyd y gystadleuaeth gan Joseph Hudson o Birmingham. Dyfeisiodd Hudson chwiban arbennig sy'n cael ei defnyddio o hyd gan amryw o luoedd Heddlu ar draws y byd. Yn ddiweddarach, dyfeisiodd Hudson chwiban y reffarî ar gyfer gemau pêl-droed. Cyn hyn, arferid defnyddio hancesi gwyn i reoli gemau.



Daeth ei gwmni, J Hudson & Co, Birmingham yn brif gwmni cynllunio a gwerthu chwibanau ar draws y byd.

Ond yn ôl at y reffarî druan! Am awdurdod, a hynny drwy chwythu'i chwiban yn unig. Mae pob chwaraewr rygbi, o'r mwyaf i'r lleiaf, o'r cryfaf i'r mwyaf chwim, yn oedi ar ganiad chwiban y reffarî.

Er gwaethaf sŵn byddarol y miloedd ym mhob stadiwm, mae'r timoedd yn clywed sŵn y chwiban drwy'r cyfan.

MAE llawer o synau o'n hamgylch ni heddiw'n ceisio denu'n sylw a'n byddaru. Tybed a lwyddwn i glywed llais Duw drwy'r cyfan yn ein galw i drefn o bryd i'w gilydd, yn oedi'r chwarae a rhoi cyfle i ni ystyried ein tactegau a'u bwriadau?



Gweddïwn

Arglwydd, er mor fythol newydd a grymus yw dy Air, aethom yn fyddar i'w her a'i alwad.
Agor ein clustiau i wrando,
ein meddyliau i ddeall
a'n calonnau i ymateb.
Trwy Iesu Grist



Amen



DARLLENIADAU



Mis Tachwedd	Darlleniad
Wythnos 1	Luc 19: 1-10
Wythnos 2	Luc 20: 27-38
Wythnos 3	Luc 21: 5-9
Wythnos 4	Luc 23: 33-43

Diolch oddi wrth y teulu

Diolch yn fawr iawn i bawb ohonoch am bob arwydd o gydymdeimlad a charedigrwydd a dderbyniwyd gennym yn ystod ein profedigaeth ddiweddar. Bu colli priod, mam a mam-gu annwyl mor ddisymwth yn ergyd fawr i ni fel teulu. Drwy'r cyfan, rydym wedi cael ein hamgylchynu â charedigrwydd a chefnogaeth gan bawb. Diolch am y gynhaliaeth ac i bawb a ddaeth i'r angladd yng Nghlydach.

Bu rhaid aildrefnu sawl agwedd ar fywyd yr ofalaeth yn ystod mis Hydref. Diolch i bawb a ysgwyddodd gyfrifoldebau ychwanegol yn fy absenoldeb, ac yn arbennig i Alun Charles am aildrefnu'r Suliau.

Rwy'n edrych ymlaen yn fawr iawn at ailgydio yn fy ngwaith yn llawn ar Sul cyntaf Tachwedd.

Yn gywir

Beti-Wyn

ar ran Elin, Sara a Walford (tad Beti-Wyn)

DIOLCH YN FAWR

Cydnabyddir yn ddiolchgar gyfraniad

RHIAN MAIR EVANS

JOHN A CARYS GREEN


a

DI-ENW

at gyhoeddi'r Papur y mis hwn



APÊL TEGANAU NADOLIG CYNGOR SIR GÂR



A wyddoch fod gwir angen cymorth ar gannoedd o deuluoedd Sir Gaerfyrddin y Nadolig hwn? Menter leol a gafodd ei sefydlu yn 2011 ac sy'n darparu anrhegion Nadolig i deuluoedd mewn angen yw Apêl Nadolig Cyngor Sir Gâr.

Yn dilyn Apêl Anrhegion Nadolig 2018 y bu eglwysi'r Ofalaeth yn hael iawn eu cefnogaeth iddi, llwyddodd Gwasanaeth Cymorth Ieuencid Sir Gaerfyrddin i ddarparu dros 6,000 o anrhegion i 957 o blant a phobl ifanc yn y Sir.

Byddwn yn cefnogi'r un apêl eto'r Nadolig hwn

Byddwn yn casglu yn y Capel rhwng Sul cyntaf Tachwedd ac ail Sul Rhagfyr.

Pa fath o anrhegion ydyn ni'n chwilio amdanynt?

Rydym yn chwilio am anrhegion ar gyfer pob oedran; o fabanod 18 mis oed i fyny at bobl ifanc yn eu harddegau.

Byddem yn ddiolchgar **pe baech chi ddim** yn lapio'r anrhegion gan y byddant yn cael eu dosbarthu gan y tîm o wirfoddolwyr sy'n gweithio ochr yn ochr â'r teuluoedd. Mae croeso i chi gyfrannu papur lapio, sisyrnau a selotêp ar gyfer y gwirfoddolwyr.

Bydd blychau ym mlaen y Capel i dderbyn eich cyfraniadau.

A wnewch chi sicrhau bod y teganau'n rhai newydd os gwelwch yn dda a heb eu lapio.



Awgrym o bris - £5 yr anrheg

Diolch ymlaen llaw am eich cefnogaeth



Cyfaill Pawb

GWYDDOM, o wrando ar ei bregethau, fod gyda'r Parchedig W J Edwards gyfeillion ymhobman. Roedd rhai yn adnabyddus iawn ym myd cyhoeddus Cymru, eraill yn aelodau digon di-nod ym Mhenllyn a sir Gâr, y ddwy Ofalaeth lle bu'n gweinidogaethu.



Efallai bod y gosodiad uchod yn tynnu gwên, ond does dim dadlau am bwysigrwydd cyfeillion iddo. Dyna oedd cyfrinach fawr ei weinidogaeth.

Cymerai ddiddordeb anghyffredin yn twrio a hel achau pobl. Roedd eu magwraeth, eu cefndir, eu diddordebau'n bwysig. Roedd yn fugail oedd yn adnabod ei braidd. Cofiai bob manylyn. Roedd yn enseiclopedia symudol, ganmil gwell na'r teclynnau digidol, electronig modern.

Daeth atom i Ofalaeth y Priordy, Cana a Bancyfelin ar ôl treulio chwarter canrif ym Mhenllyn. Roedd wedi teyrnasu dros Ofalaeth eang wrth droed yr Aran. Ardal lle roedd y "Pethe" yn bwysig - eisteddfod, llyfrau, hanes lleol a hynt a helynt bob dydd. Cartref delfrydol i WJ - bachan a hoffai ysgrifennu, dilyn eisteddfodau, mynd ar brotestiadau Cymdeithas yr Iaith, cenedlaetholwr pybyr, Cymro i'r carn.

Ond, ei gonsŷrn am bobl oedd y nodwedd bwysicaf. Roedd yn rhan annatod o'i Gristionogaeth.

Nid anghofiaf ei gyfarfod ymadawol â Phenllyn. Roeddwn yno i'w groesawu i'n Gofalaeth. Teimlwn braidd yn annifyr. Doedd neb am iddo fe, Gwenda a'r merched, adael Llanuwchllyn. Roedd wedi tyfu'n frenin yno.

Rwyf wedi dyfynnu englyn Ifan "Henryd" Roberts o'r blaen. Mae'n crisialu popeth am ei weinidogaeth.

*Uwch pob peth yn bregethwr- i'w ddeiliaid
Yn ddilys fugeiliwr,
Mewn eisiau'n gymwynaswr,
Mewn adfyd o hyd yn dŵr.*

Yn ei naw mlynedd gyda ni, gallwn ddweud yn bendant fod y geiriau yna lawn mor berthnasol.

Yn ei deyrnged onest ac annwyl, fe wnaeth ei ffrind mawr, y Parchedig Gareth Morgan Jones, nodi na wnaeth ei gyfaill erioed setlo yma yn y Sowth fel y gwnaeth ar lan Llyn Tegid. Diau bod hynny'n gywir. Doedd soffistigeiddrwydd dinesig ddim yn ei siwtio. Bachan o'r wlad oedd e o'i gorun i'w sawdl.

Serch hynny, bu'n hynod o ddiwyd. Amlygai'r consŷrn am bobl ar adegau profedigaeth. Daeth nifer o deuluoedd yn gyfeillion agos wedi colledion.

Roedd ei brofiad ym Mhenllyn yn fanteisiol wrth ddatblygu ein Gofalaeth. Roedd eciwmeniaeth yn ei waed - doedd e ddim mor frwd dros Efengylwyr!!!

Drwy'r cyfan, roedd yn aflonyddwr. Ysgrifennodd gannoedd o erthyglau i bapur *Y Cyfnod* yn y Bala - deugain mlynedd o erthyglau wythnosol ar ystod eang o bynciau. Daliodd ati. Casglodd gannoedd o lyfrau. Llanwodd ddysenni o lyfrau nodiadau; roedd dyfynnu yn ail natur iddo wrth bregethu. Roedd ganddo gof anhygoel.



Wedi ymddeol, yn anffodus, ni chafodd brofi iechyd delfrydol. Siom fawr iddo oedd methu ymuno â'r Orsedd, methu codi digon o nerth i ffonio rhaglenni trafod ar y radio a methu mynychu oedfaon heb sôn am bregethu eto.

Bu Gwenda, Nest, Lowri a Non yn arwrol eu gofal amdano. Daeth Erin fach â bonws hapus i'w ddyddiau olaf ym Mow Street.

Er ei wendid corfforol, diolch byth, ni phallodd ei gonsŷrn am eraill. Roedd bob amser yn gofyn am hynt a helynt aelodau'r Priordy, Cana a Bancyfelin. Roedd yn gwybod mwy amdanynt na'u cyfeillion agosaf.

DYN y bobl oedd hyd y diwedd. Roedd yn fraint i fod yn un o'r bobl hynny



NADOLIG YR OFALAETH 2019



DYDD SUL 8 RHAGFYR 2019
Y PRIORDY
Prynhawn Sul am 2.00
Gwasanaeth Nadolig
Diod ysgafn a Briwgacs i ddilyn

DYDD SUL 15 RHAGFYR 2019
Y PRIORDY
Y Bore am 10
Oedfa gyda'n Gweinidog

CANA
Gwasanaeth Nadolig am 2
Parti i ddilyn

CAPEL PENUEL
Nos Sul am 7.30
Plygain Merched y Wawr

DYDD SUL 22 RHAGFYR 2019
CANA
Oedfa Llith a Charol yr Ofalaeth am 10
Paned a Briwgacs i ddilyn

BANCYFELIN
Dathlu'r Nadolig yn y Gymuned
Gorymdaith drwy'r pentref yn cychwyn am 6
ac Oedfa Nadolig yn y Capel
Paned a Briwgacs i ddilyn a Pharti't Plant

BORE NADOLIG
Oedfa Undebol i'r teulu cyfan yn Y Priordy am 9 y bore gyda'n Gweinidog
a'r Bobl Ifainc

DYDD SUL 29 RHAGFYR 2019
Oedfa Undebol i'r Ofalaeth ym Mancyfelin am 10 gyda'n Gweinidog
Croeso i bawb

DECHRAU CANU, DECHRAU CANMOL

Eglwys San Pedr Caerfyrddin
Nos Sul, 17 Tachwedd 2019 - 6.30pm
(Drysau'n agor am 6.00pm)



Arweinydd
Meinir Richards
Organydd
Huw Tregelles Williams

*Casgliad ar y noson at Bwyllgor Apêl
Caerfyrddin a'r Cylch, Eisteddfod yr Urdd
Sir Gaerfyrddin 2021*



Ymarfer yn Eglwys Sant Pedr ar Nos Lun, 11 Tachwedd
2019 o 6.30 tan 7.30pm

YSGOL GYFUN GYMRAEG BRO MYRDDIN

*Sioe wreiddiol fyrlymus lle cawn
glywed lleisiau anghofiedig
Wyrwys Caerfyrddin, 1837.
Achubwch ar y cyfle i graffu trwy
gil y drws ar fywydau'r trigolion
lliwgar, gan fwynhau perfformiad
cast talentog disgyblion Ysgol
Gyfun Gymraeg Bro Myrddin.*



Mercher – Gwener 20-22 Tachwedd 2019 – 7.30
Theatr y Lyric, Caerfyrddin.

Tocynnau: £15 (Pris Llawn) £10 (Dan 16) - ☎0345 226 3510



Dydd Gweddi Byd-Eang

Cynhadledd i Baratoi ar gyfer Dydd Gweddi 2020

Dydd Mercher, 27 Tachwedd 2019
10.00(Coffi) tan 12.30

Festri Capel Heol Awst

Croeso i bawb

OEDFAON YNG NGOFAL YR AELODAU

Yn absenoldeb anorfod ein Gweinidog ac yn dilyn ein Gŵyl Ddiolchgarwch, cynhaliwyd dwy oedfa arall yn ystod y mis yng ngofal yr aelodau.

Ar Fore Sul 13 Hydref 2019 *Llawenydd- un o ffrwythau'r Ysbryd* oedd y thema. Cyflwynwyd y gwasanaeth gan Adrian Evans a chymerwyd rhan gan Heledd Tomos, Catrin Heledd Jones a Gareth Gravell a thraddododd Alun Charles y myfyrdod.



Ar Fore Sul, 20 Hydref, *Fy Hoff Emyrn* oedd y thema. Cyflwynwyd y gwasanaeth gan Catrin Heledd Jones a chymerwyd rhan gan Chris Lloyd (stori'r plant), Nansi Hayes (Darlleniad) a'r Dr Huw Michael (Gweddi). Darllenodd Elis Jones ddarn ar *Beth yw pwrpas emyn?* o waith Elinor Wyn Reynolds (gweler mewn man arall yn y Papur) a dewiswyd yr emynau gan Alison Parsons (*Dwy law yn erfyn sydd yn y darlun - Caneuon Ffydd 139*), y Dr Myfanwy Jones (*Mi glywaf dyner lais - Caneuon Ffydd 483*) a Rebecca Hayes. Dewis Rebecca oedd emyn o waith ei mam yng nghyfraith, Nansi Hayes, a gyfansoddwyd ar gyfer priodasau'i meibion – John a Beth yn Nolgellau, Mike a Haf yng Nghapel Seion a Tim a Rebecca yng Nghwmllynfell,. Gan nad yw'r emyn ar gael yn *Caneuon Ffydd* dyma gyfle i chi fwrw golwg drosto a'i werthfawrogi:

**Arglwydd Iesu, tro Dy wyneb
At y ddau sydd yma 'nghyd
Wedi dod i addunedu
Llw o gariad hyna'r byd.
Una hwy mewn glân briodas
Rho Dy nodded yn ddi-lyth
Clyma hwy â chwlwm cariad
Na all dim ei ddatod byth**

**Rho Dy fendith ar eu cartref,
Bydd Di yno gyda hwy
Yn y canol i'w diddanu
A phaid byth a'u gadael mwy.
Dim ond Ti all selio'r cariad,
Ti yn unig, Ti dy Hun,
O! corona'r ddeuddyn hapus,
Â'th lân gariad yn gytûn.**

GWASANAETH 'FY HOFF EMYN'

**Dyma'r cyflwyniad a'r weddi a ysgrifennodd
Elinor Wyn Reynolds ar gyfer y gwasanaeth hwn
ar Fore Sul 20 Hydref 2019**

Beth yw pwrpas emyn?

Heblaw am ein galluogi ni i roi *workout* i'n hysgyfaint ni beth sydd mor dda am ganu emynau? Wel, mae canu allan yn uchel yn well na yoga, neu *workout* yn y *gym* o ran manteision iechyd, medden nhw. Mae canu'n dod â lles corfforol ac emosiynol i rywun, gan gynnwys cynnydd mewn ymarfer aerobig, gwell anadlu, gwell osgo corff, gwell ffordd o feddwl, gwell hyder a hunan-barch. Gwell! Mae canu allan ar eich pen eich hun yn beth da oherwydd rydych chi'n defnyddio'ch corff i gynhyrchu'r sŵn, ac mae hynny'n rhyddhau endorffins, mae'n creu llawenydd yn y corff ac yn yr ymennydd. Mae canu yn cael effaith llesol ar sawl rhan o'r ymennydd. Ond mae canu gyda phobol eraill hyd yn oed yn well, am eich bod chi'n perthyn i rywbeth sydd yn fwy na dim ond chi eich hun.



Ry'n ni hefyd yn gwybod bod canu'n beth da i bobol sydd â dementia am ei fod yn cael effaith bositif ar y corff ac er bod y meddwl yn dadfeilio mae'r corff yn 'cofio' profiadau cadarnhaol – yn ogystal â hynny, mae'r cof briw yn medru cofio'r caneuon a ganwyd yn nyddiau mebyd pan oedd yr ymennydd yn iach ac mae'r gwefru sy'n digwydd yn yr ymennydd drylliedig wrth gofio'r hen ganeuon yn ddim llai na gwyrthiol, ac yn sydyn, mae pobl a gollodd y gallu i siarad, yn medru cofio caneuon o flynyddoedd yn ôl a chanu heb syrthio dros yr un sill.

Yn aml iawn, mae emynau a ganwyd ganwaith yn ein cysylltu ni ag amser a aeth heibio, at anwyliaid a aeth o'n blaenau, at y man dirgel hwnnw na fedrwn ni fyth fynd yn ôl iddo, sef y gorffennol. '*The past is a foreign country*,' medd yr awdur L. P. Hartley ar gychwyn ei nofel *The Go-Between*. Ond y mae canu'r emynau hynny'n drysor mwy na geiriau i ni felly, gan fod canu'r emynau'n medru agor y drws hwnnw ar y gorffennol rhyw fymryn. Ac wrth gwrs, mae'r llenyddiaeth goeth, gyfoethog yn werthfawr i ni hefyd.

Ydy Cristnogion yn hapusach na phobl eraill, am ein bod ni'n canu

emynau? Cofiwch y gair o anogaeth llesol roddodd Paul yn ei lythyr at yr Effesiaid: '*Canwch salmau ac emynau a chaneuon ysbrydol i'ch gilydd – canwch fawl yn frwd i'r Arglwydd.*' Bob Sul, fe ddown ynghyd i ganu, i foli, i glodfori Duw. Fe gawn ein *workout* drwy ein canu ni; hefyd, rydym ni'n teimlo'n bod ni'n perthyn i'n heglwys ac i deulu Duw wrth sefyll yn y gynulleidfa ac ar ben hynny, rydyn ni'n cael canu clodydd ein Harglwydd – mae hynny'n fargen dybiwn i, tri pheth am bris un.

Ond pam emyn? Mae emyn da yn syml, mae'n uniongyrchol, mae'n cyfleu neges neu brofiad yn glir, ac er y symylrwydd gall gynrychioli rhywbeth llawer mwy cymhleth a dwfn. Yn aml mae emyn yn dweud stori fawr, epig hyd yn oed, mewn ychydig eiriau a dyna'i ogoniant – *less is definitely more* yn yr achos hwn. Ac fe ganwn ni'r emynau gan rannu profiadau'r rhai a ysgrifennodd y geiriau gynta, fe gawn ni rannu yn y wefr, yn wir mae'n gyfle i ni deimlo gwefr drosom ni ein hunain. Fe allwn ni estyn yn ôl drwy'r blynyddoedd a chyffwrdd ag Ann Griffiths â Williams Williams, â Robert ap Gwilym Ddu – anhygoel. Teimladau a geir mewn emynau yn aml yw gorfoledd, anobaith, cariad, tristwch, llawenydd a hynny wrth i ni gerdded y daith drwy fywyd gyda Iesu Grist a chyda Duw.

Fe ddechreuwn ni drwy ganu un o emynau William Williams Pantycelyn mewn munud. Un o bennaf emynwyr y byd oedd ac yw William Williams. Am dalent, am ddawn. Rydw i am ddarllen y pennill cyntaf i chi:

Iesu, Iesu, 'rwy't ti'n ddigon,
'rwy't ti'n llawer mwy na'r byd;
mwy trysorau sy'n dy enw
na thrysorau'r India i gyd:
oll yn gyfan
ddaeth i'm meddiant gyda'm Duw.



Dywed Delyth Morgans Phillips, Ysgrifennydd Cymdeithas Emynau Cymru: '*Roedd Williams Pantycelyn yn ddyn reit gefnog, doedd dim arwydd o brinder arian yn ei deulu fe. Ac eto, i Bantycelyn ac i Gristnogion drwy'r oesoedd, nid pa mor iach yw'r cyfrif banc sy'n cyfri. All neb fynd â'i gyfoeth gydag e o'r byd hwn p'run bynnag. Yn dilyn ei dröedigaeth, rhoddodd Williams heibio'r syniad o fynd yn feddyg, ac yn hytrach ymroi ei holl amser i wasanaethu'i Arglwydd Iesu, i bregethu ac ysgrifennu cannoedd o emynau.*' Am ddweud mawr mewn ychydig linellau.

Heddiw, ar ôl i ni ganu emyn Pantycelyn mae tri ohonom ni [Rebecca Hayes, Alison Parsons a'r Dr Myfanwy Jones] am ddewis eu hoff emyn hwy ac fe fyddan nhw'n esbonio, yn eu geiriau eu hunain, y rheswm dros y dewis hwnnw. Fe gawn ni fel cynulleidfa eu canu ar ôl i ni rannu yn eu profiadau unigol hwy. Cyn i ni gychwyn arni, ga i ofyn i chi feddwl am hwn – beth yw'ch hoff emyn *chi*? Pam? Gobeithio y bydd y cwrdd hwn yn gwneud i chi feddwl rhyw gymaint am hynny, ac os nad oes gennych chi hoff emyn hyd yma, wel, beth am ddewis un? Sdim rhaid i chi ddweud wrth neb.



Cyd-weddiwn

Ein tad, yr hwn sy'n awdur pob dim.



Dyma ni unwaith eto'n dod ger dy fron, y tro hwn i ddiolch am ddawn dweud ein hemynwyr ni, am eu gallu i fynegi llawer mewn ychydig iawn.

Diolch am yr emynau sy'n ein galluogi i ddatgan mewn geiriau huawdl a chain ein moliant ninnau ar gân. Drwyddyn nhw, y dynion a'r menywod hyn, fe gawn ni ganu'n llafar i'r Arglwydd a'n calonnau ar dân.

Diolch i ti am bob gair, pob darlun, a phob emosiwn sydd yn ein hemynau ni. Mae'r hyn a ganwn yn goleuo'n ffydd ni ac yn atseinio yn ein bywydau ni.

Fe ganon ni'r emynau ganwaith, ac mae'r geiriau a naddwyd ar ein cof yn eiriau prydfferth sy'n deffro dyhead ynom i'th addoli a dod i'th adnabod di'n well.

Diolch i ti am hyn oll, boed i ni ganu'r emynau hyn hyd byth a thrwy hynny allu gorfoleddu ynot yn dragwydd.

Ac wrth i ni foli dy enw ar gân y bore yma, ein Tad, diolchwn i Ti am dy ofal mawr dros y cleifion, y rhai sy'n galaru a'r rhai sy'n anffodus eu hamgylchiadau yn ein byd cymhleth.

Amen

SGILIAU SYRCAS YN YR YSGOL SUL



Díolch i Rosan



CWIS TACHWEDD



Mae pob ateb yn dechrau gyda'r llythyren 'T'

Mae'r atebion i gyd yn y Beibl

1										
2										
3										
4										
5										

1	<i>Math ar golomen (Genesis 15:9)</i>
2	<i>Cyfarchiad a gorchymyn Iesu i ferch Jairus. Geiriau Aramaeg – yr iaith a siaradai Iesu'n gyffredin (mae'n debyg). (Marc 5:41)</i>
3	<i>Ail ymheroddr Rhufain, Fe oedd olynnydd Awgustus Cesar (Luc 3:1)</i>
4	<i>Fe oedd un o brif gymdeithion Paul (2 Corinthaidd 8:23)</i>
5	<i>Prifddinas Cicilia a lle genedigol Paul a'r lle y treuliodd ynddo rai blynyddoedd ar ôl ei droedigaeth (Actau 9:1)</i>

***Rhowch gynnig arni – a dod i adnabod y Beibl yn well!
Atebion yn y rhifyn nesaf***


ATEBION CWIS HYDREF

***1. Hermes 2 Heli 3 Hollalluog 4 Hydd
5 Hosanna***



GWIRIONEDD

Elinor Wyn Reynolds



Hydref 2019

Gwasg y Bwthyn £8.95

Nofel ysgubol sy'n cynnig golwg newydd ar un o ddigwyddiadau mawr bywyd – marwolaeth. Mae'n llawn dagrau, direidi a dathlu, ond yn bennaf oll, mae'n gorlifo â chariad.

Lansiad llyfr Menna Elfyn “Cwsg – am dro ac yn ôl”.

Nos lau, 7 Tachwedd 2019 – 7 tan 9

Yr Atom, Caerfyrddin

Cyfrol newydd arbennig sy'n dathlu sut rydym yn treulio hanner ein hamser.



yn cynnwys:

Darlleniadau o'r gyfrol gan yr awdur

Arddangosfa gwaith celf gwreiddiol gan Sarah Williams

Sesiwn ioga a myfyrio gyda Laura Karadog Te, siocled poeth a thost ar gael am ddim



Dewch yn eich pyjamas (os hoffech), croeso cynnes i bawb!

Gwerthir y llyfr ar y noson gan Siop y Pentan. (£9.99 – Gwasg Gomer)

Y GYMDEITHAS

**Atgofion Plant y Priordy
Sulwyn Thomas, Rhian Evans, Dai Lloyd**

Nos Lun 4 Tachwedd 2019 – 7.00



Cana a Bancyfelin yn ymuno â ni

MERCHED Y WAWR CAERFYRDDIN

PLYGAIN

NOS SUL - 15 RHAGFYR 2019 - 7.30



**CAPEL PENUEL,
CAERFYRDDIN**

RHAGLEN: £3

***Yr elw at Hafan Glyd, Canolfan
Dementia, Caerfyrddin***



CARDIAU NADOLIG

CYMORTH CRISTNOGOL

***ar werth
yn y Priordy***

Yn ystod mis Tachwedd / Rhagfyr

AR Y WE: www.priordy.org (yn cynnwys Papur Priordy)

Beti-Wyn...

Bywyd yn y Festri! Mis Hydref



Bu'r dosbarth ifancaf, dan arweiniad Mari, yn mwynhau trafod stori *Patch y Bwmpen*. Mae llun ohonynt mewn man arall yn y Papur.



Patch

Bu'r dosabrth canol, dan arweiniad Tim, yn cynnal cystadleuaeth mewn 2 dîm. Roedd rhaid i un tîm ddewis emyn ymhlith emynau'r plant yn *Caneuon Ffydd*, neu gofio un o'r ysgol, a chreu cyfres o luniau yn ymwneud â'r emyn.



Yna, roedd rhaid i'r tîm arall geisio dyfalu pa emyn oedd e. Cafywd cynigion amrywiol, yn cynnwys "*Y bysedd sydd yn clicio*" "*I orwedd mewn preseb*" "*Cofia bob amser*" a llawer o hwyl!

Ac wrth gwrs, cafwyd digon o sbort yn y Festri wrth roi cynnig ar Sgiliau Syrcas – fel y gwelwch yn y lluniau yn y Papur. Llawer iawn o ddiolch i Rosan!



‘Agor y Gair’



***Cyfres Newydd o Astudiaethau Beiblaidd Cymraeg
yng Nghaerfyrddin***

**Boreau Mercher 26 Chwefror, a 4,11,18 Mawrth 2020
11.00 tan 12.00**

Canolfan ‘Yr Atom’, Stryd y Brenin, Caerfyrddin

Croeso cynnes iawn i bawb

AGOR Y LLYFR YN YSGOL Y DDERWEN



MWYNHAU YN YR YSGOL SUL
Gweler Bywyd yn y Ffestri



Ifanc@Priordy



Diolchgarwch

Diolch i chi i gyd am eich rhoddion i'r Banc Bwyd. Ardderchog!

Apêl Anrhegion Nadolig

Byddwn yn cefnogi Apêl Anrhegion Nadolig Cyngor Sir Gâr eleni eto. Manylion mewn man arall yn y Papur hwn.



Sgiliau Syrcas

Diolch i Ros am ddod atom i ddangos sgiliau syrcas. Cawsoch amser gwych yn ei chwmni yn ôl pob sôn!

Gwasanaeth Nadolig Y Priordy

Prynhawn Sul, 8 Rhagfyr
2 o'r gloch
(ymarfer am 10 y bore)
Paned a mins peis i ddilyn.
Croeso i bawb!



Trefniadau ymarferion y Gwasanaeth Nadolig

Mae angen i bawb sy'n cymryd rhan yn y gwasanaeth wneud pob ymdrech i fod yn bresennol yn yr ymarferion os gwelwch yn dda, er tegwch i'r sawl a fydd yn eich dysgu ac i weddill y plant / y bobl ifanc.

Os na fyddwch yn bresennol ar Sul arbennig, cofiwch roi gwybod o flaen llaw i'r sawl sydd yn eich dysgu.

	Ysgol Sul a	PIP
Tachwedd 3	Cwrdd Plant Sul yr Urdd	Derbyn Aelodau Ifanc
Tachwedd 10	Dosbarthu Sgript yr Oedfa Nadolig	Dim PIP
Tachwedd 17	Ymarfer yn y Festri	Dosbarthu Sgript PIP. Ymarfer yng Nghapel Penuel
Tachwedd 24	Ymarfer yn y Festri	Ymarfer yn Penuel
Rhagfyr 1	Ymarfer yn y Capel	Ymarfer yn Penuel
Rhagfyr 8	Ymarfer yn y Capel am 10 Oedfa Nadolig am 2	Ymarfer yn y Capel am 10 Oedfa Nadolig am 2

Hwyl am y tro! Beti-Wyn

GŴYL DDIOLCHGARWCH Y PRIORDY



Elen Marks...

CWRDD DIOLCHGARWCH PLANT YR YSGOL SUL

Cynhaliwyd y Cwrdd ar fore Sul, 6 Hydref dan arweiniad arbennig Elinor Wyn.

Agorwyd yr oedfa gyda phlant yr Ysgol Sul yn cerdded i fyny o'r festri i'r capel i gyflwyno'u rhoddion i Fanc Bwyd Caerfyrddin a hynny i gyfeiliant Band Y Priordy. Aelodau'r Band yn yr oedfa hon oedd Gareth ar y gitâr, Nikki ar y piano, Gareth ar y clarinet ac Erin ar y drymiau.



Croesawyd pawb gan Elinor Wyn a chafwyd gweddi agoriadol deimladwy i ddechrau. Cydymdeimlwyd yn ddwys â Beti-Wyn a'r teulu yn eu profedigaeth o golli Mam a Mam-gu rai dyddiau ynghynt. Aeth Elinor Wyn ymlaen i arwain y gynulleidfa i gyd-ddarllen Salm 8 '*Mae Duw mor Fawr!*' Wedyn, daeth Olwen i'r pulpud i gyflwyno Emyr 145, *Cofia bob amser*'.

Cafwyd y cyhoeddiadau am yr wythnos gan Eirlys Jones a chymerodd Nel, Mali, Trystan ac Osian yr awennau o ran y casgliad. Bendithiwyd y casgliad gan Elinor Wyn ac yna tro Trystan oedd hi i fynd i'r pulpud i adrodd Emyr 143 '*Pwy wnaeth y sêr uwchben?*'.

Yn ystod yr emyn olaf, daeth Osian a Gwenan i fyny i'r pulpud i sôn ychydig am yr Ŵyl Ddiolchgarwch a pha mor bwysig yw hi i ddiolch i Dduw am y bwyd a gesglir adeg y cynhaeaf. Wrth ddiolch, dangosodd Osian a Gwenan eu harbenigedd mewn ieithoedd drwy ddiolch mewn sawl iaith wahanol! Diolchodd Elinor Wyn i Gwenan am gymryd y rôl ar fyr rybudd gan fod Mac yn anhwylys. Danfonwyd ein cofion oll at Mac am wellhad buan.



Gwylwyd cyflwyniad ar y thema 'Diolch' ar y sgrîn gan roi cyfle i'r gynulleidfa fyfyrro drosto. Yna, cydadroddwyd Gweddi'r Argllwydd.

Tro'r band taro oedd hi nesaf, a chafodd pob aelod o'r Ysgol Sul gyfle i fod yn gerddor am ychydig funudau drwy gyfeilio i Emyr 158 '*O O O mor dda yw ein Duw*'.

Unwaith i'r gynulleidfa orffen canu'r Emyrn, siaradodd Elinor Wyn â'r plant ynglŷn â'r pethau rydym ni'n ddiolchgar amdanynt, fel teulu, ffrindiau a'r cyfle i ymuno â'n gilydd yn y capel. Nododd yr hapusrwydd y mae pawb yn ei deimlo wrth weld wynebau'r plant yn gwenu bob bore Sul. Gofynnodd i'r gynulleidfa weiddi 'Diolch' mor uchel â phosib er mwyn dangos i'r plant pa mor ddiolchgar ydyn ni amdanynt ar fore Sul. Tro'r plant oedd hi wedyn i wneud rhywbeth tebyg ac yn wir, codwyd to'r Priordy'r tro hwn!

Cyflwynodd Elinor Wyn yr emyn olaf sef '*Mae'r bysedd bach sy'n clicio*' a chaewyd yr oedfa arbennig hon gyda'r Fendith.

OEDFA DDIOLCHGARWCH YR HWYR

Croesawyd pawb i'r oedfa gan Alun Charles yn absenoldeb anorod ein Gweinidog. Roedd nifer o gyfeillion wedi ymuno â ni o gapeli'r Ofalaeth a'r dref a thu hwnt

Ein pregethwr gwadd oedd yr Hybarch Randolph Thomas, yn wreiddiol o Langennech ond sy'n byw erbyn hyn ym Mhorthyryd. Mae wedi mwynhau gyrfa lwyddiannus gyda'r Eglwys yng Nghymru o ddyddiau curadaeth yng



Nghydweili a Llandyfaelog hyd at ddyddiau archddiaconiaeth Aberhonddu. Mae'r efengyl gymdeithasol yn greiddiol iddo a'i fywyd a'i waith yn dangos ei fod yn byw'r grefydd honno o ddydd i ddydd.

Cymerwyd rhan yn y gwasanaeth gan Peter Hughes Griffiths a Catrin Heledd Jones.

Yn dilyn myfyrdod yr Hybarch Randolph Thomas ar bwysigrwydd gwarchod a diogelu'r holl adnoddau a ddaw i ni drwy Dduw, cawsom ein tywys ganddo at y Bwrdd i gydgyuno. Mynegodd yntau fel roedd yn torri tir newydd drwy gael y cyfle i wneud hyn mewn capel. Cafodd gymorth Philip Jones, Adrian Evans, Gwynfor Davies a Wyn Tegryn Evans i weini'r Cymun.

Cawsom gymdeithasu dros swper yn y Festri ar ddiwedd yr oedfa a mynegodd Sulwyn Thomas ein diolch i'r Hybarch Randolph Thomas ac i'r gwragedd am baratoi'r lluniaeth.

DISGLEIRIO MEWN GYMNASTEG

Cafodd **Marged** lwyddiant mawr yn ddiweddar mewn gymnasteg – yn ennill Pencampwriaeth Cymru Lefel 4 (11-12 oed) a chystadleuaeth yn Wiltshire o'r enw *Quatro Cup*.



Enillodd **Anna**, ei chwaer (*y ferch ar y chwith*), le yng ngharfan Gorllewin Cymru a bu'n cynrychioli'r rhanbarth honno yng Nghaerdydd ym Mhencampwriaeth Cymru Lefel 5 (9 oed) gan gipio medal arian am y llofnedio ac arian hefyd am y tîm.

Da iawn, ferched! Rydyn ni'n falch iawn ohonoch!

ELIS JAMES

Ffilmio S4C

**Dydd Sadwrn 9 Tachwedd 2019 – 17.30
a 20.00**

Theatr y Lyric

Tocynnau: £10.50 (☎07751 500944)



DERBYNIWYD GAN FANC BWYD CAERFYRDDIN




Banc Bwyd

Diolch yn fawr iawn i bawb am ymateb mor hael i'r Apêl. A diolch i Henry Wilkins and drosglwyddo'r nwyddau i'r Banc Bwyd

Apêl Yr Hen Sbectolau

Casglwyd 163 pâr o sbectolau yn Y Priordy! Diolch am y gefnogaeth. Byddant yn cael eu trosgwyddo i'r optegydd cyn bo hir



COFIWCH AM Y BLWCH STAMPIAU A'R BLWCH CETRYS YN Y CYNTEDD

SGILIAU SYRCAS YN YR YSGOL SUL



BWLCH ENFAWR ANNERBYNIOL YN PARHAU

Er gwaethaf y boen gyllidol a brofodd rhai o gyfoethogion mwyaf Prydain dros y deuddeng mis diwethaf, mae 2019 yn parhau i fod yn flwyddyn sy'n torri pob record yn ôl Rhestr Cyfoethogion y *Sunday Times* a gyhoeddwyd yn gynharach eleni. Cododd cyfoeth gyfunol y mil sydd ar y Rhestr i £771.13 biliwn – i fyny £47.776 biliwn ar 2018. Cododd nifer ein biliwnyddion hefyd i'r un mwyaf erioed, sef 151 – i fyny chwech ar y llynedd.



Mae 27 o Gymru ar y Rhestr Cyfoethogion y tro hwn, yn werth £15.485 biliwn rhyngddynt, Mae'n cynnwys pobl a anwyd yng Nghymru, rhai sy'n byw yma neu bobl a chanddynt asedau neu fusnesau arwyddocaol wedi'u sefydlu yn ein gwlad. Maen nhw'n cynrychioli 2.007% o gyfanswm cyfoeth y Rhestr y flwyddyn hon. Byddai rhaid bod gennych £120 miliwn i gyrraedd rheng isaf y Rhestr Cyfoethogion eleni – i fyny o £115 yn 2018. Efallai bod enwau'r unigolion a'r teuluoedd cyfoethocaf ar y Rhestr yn newid yn gyson ond does dim gwadu bod y cyfoethog yn mynd yn gyfoethocach!

Ar yr un pryd mae'r tlawd yn mynd yn dlotach. Mae'r defnydd o fanciau bwyd yn codi ar raddfa uwch nag erioed. Mae data Ymddiriedolaeth Trussel yn dangos i 1,332,952 o gyflenwadau bwyd argyfwng tri niwrnod gael eu dosbarthu i bobl mewn argyfwng yng Ngwledydd Prydain yn ystod y flwyddyn hyd at Mawrth 2018. Mae dadansoddiad o'r tueddiadau'n dangos y bu cynnydd arwyddocaol er Ebrill 2016.

Yn gynharach eleni nododd Ymddiriedolaeth Trussell fod nifer y cyfeiriadau at fanciau bwyd wedi mynd heibio 100,000 yng Nghymru am y tro cyntaf. A bu cynnydd o 43% yn nifer y pecynnau bwyd a ddarparwyd gan yr elusen yn ystod y pum mlynedd diwethaf. Yn syml, mae'r Ymddiriedolaeth yn dweud ei bod yn gweld y nifer uchaf o bobl yng Nghymru'n dod drwy ddrysau banciau bwyd gan nad ydyn nhw'n gallu fforddio bwyd.

Mae tlodi plant yn prysur ddod yn norm newydd mewn rhai rhannau ym Mhrydain wrth i'r cynnydd cyflymaf mewn tlodi daro'r ardaloedd mwyaf tlawd. Mewn rhai etholaethau mae mwy na hanner y plant yn tyfu mewn tlodi.

Mae data *Rhwydwaith Dileu Tlodi Plant Cymru* yn dangos bod 206,173 o blant yng Nghymru mewn tlodi yn 2018, neu 29.3% o boblogaeth plant Cymru – cynnydd o 1% ar y flwyddyn flaenorol wedi cymryd i ystyriaeth costau tai. Yr etholaethau lle mae tlodi plant ar ei waethaf yng Nghymru (ar ôl ystyried costau tai) yw Cwm Cynon, De Caerdydd a Phenarth, y Rhondda (35%), Blaenau Gwent, Dwyrain Casnewydd, Merthyr a Rhymni a Dwyrain Abertawe (34%), gyda sawl etholaeth arall yn dynn ar eu sodlau!

Addawodd Llywodraeth Cymru rai blynyddoedd yn ôl i ddileu tlodi plant erbyn 2020 ond breuddwyd gwrach yw hon bellach!

Mae'r *Rhwydwaith Dileu Tlodi Plant Cymru* hefyd yn cynnal arolwg blynyddol ar dlodi teuluoedd ac mae hwnnw wedi dangos bod newidiadau i'r system budd-daliadau, ynghyd â'r cynnydd mewn costau byw, yn dwysáu'r problemau i deuluoedd yng Nghymru

Mae'r Eglwys yn dda iawn am fwydo'r tlawd, gofalu am yr henoed a diwallu anghenion y gymuned - a diolch am hynny. Hawdd meddwl am lu o enghreifftiau yng Nghymru'n unig. Ond mae amser yn dod pan fo angen i ni newid y system ei hunan. Mae dyfyniad o *A Time to Break Silence* pregeth gan Martin Luther King yn Eglwys Riverside yn rhyw grisialu'r peth:



Ar y naill law mae galw arnom i chwarae rhan y Samariad Trugarog ar fin ffordd bywyd, ond gweithred ddechreuol yn unig yw hon. Un diwrnod bydd rhaid i ni ddod i weld fod gofyn diwygio Ffordd Jericho'n gyfan gwbl fel na fydd dynion a merched yn cael eu curo a'u hysbeilio wrth iddynt deithio ar briffordd bywyd. Mae gwir dosturi'n fwy na thaflu darn o arian i gardotyn. Nid rhywbeth damweiniol ac arwynebol mohono. Daw i weld fod angen ailgynllunio adeiladwaith sy'n cynhyrchu cardotwyr.

A thybed nad yw'n amseri i'r Eglwys o ddifrif godi'n un llais ac yn un sŵn enfawr i alw am newidiadau strwythurol sylfaenol i gau'r bwloch erchyll sy'n cynyddu rhwng y cyfoethog a'r tlawd nid yn unig yng Ngwledydd Prydain ond ledled y byd. Oni fyddai Iesu'n cefnogi hyn gant y cant?

NEWYDDION O SALEM, CAERNARFON

DATHLU DEUGAIN

Ar ddydd Sul 15 Mehefin daeth yr eglwys ynghyd i ddatlu 40 mynedd y Parchedig J.Ronald Williams yn weinidog yn Salem. Cafwyd sawl syrpreis, gan gynnwys englyn o waith Ifor ap Glyn a osodwyd ar lechen:

**Bwrwodd ei rwyd i'r llwydwyll - yn ufudd
gan afael a sefyll
yn ddewr, canys dyna'i ddull
i'n cynnal 'rôl ein cynnull.**



Y GYMDEITHAS.

Cychwynnod tymor newydd ar 25 Hydref gydag ymweliad â Galeri. Yn dilyn croeso gan Rebecca Hardy Griffiths, cyfarwyddwyr Celf y Galeri, cawsom ein tywys i'r ystafell arddangos lle cafwyd cefndir l'r arddanosfa gyfredol - Yr *Atlas Llenyddol* sydd ar daith trwy Gymru. Mae'n gasgliad o weithiau Celf a symbylwyd gan nofelau Saeneg eu hiaith am Gymru gan gyfrannu at ein dealltwriaeth o'r llenyddiaeth ac o'r wlad a'i hanes



SUL DIOLCHGARWCH

Cafwyd cyfle i'r plant a'r ieuencid ddod â blodau a DAU ffrwythyn a llenwi bocs 'Pringles' gydag arian - darnau 5, 10, 20, 50c neu £1. Elen roedd yr arian yn mynd at Mathi a'i deulu, India (Ymdrech Diolchgarwch Cymorth Cristnogol) a'r ffrwythau at aelodau'r eglwys.

CROESAWU AELODAU NEWYDD.

Trist yw cyhoeddi cau unrhyw gapel - dyna ddigwyddodd i Ebeneser, capel y Wesleaid, ddiwedd mis Awst. Yn yr oedfa Gymun fore Sul olaf Mis Medi cawsom gyfle i groesawu wyth ohonynt i'n plith. Gwyddom am eu ffyddlondeb a'u cefnogaeth i Eglwys Crist cyn dod atom. Boed bendith Duw arnynt yn ein plith.

Ein llongyfarchiadau ninnau yn y Priordy hefyd i'r Parchedig J Ronald Williams a'n dymuniadau da iddo yntau a'i deulu i'r dyfodol

CINIO'R OFALAETH

Mae hi bob amser yn llesol i ni gymdeithasu â'n cyd Gristnogion yn ein Gofalaeth. Mae'n siŵr bod hyn yn gallu'n helpu ni i werthfawrogi'n gilydd a chryfhau'n cyfeillgarwch yn ogystal â chynorthwyo'n gilydd pan fo'r angen yn codi. A pha well cyfle sydd i ni gymdeithasu fel hyn na thros bryd o fwyd blasus gyda'n gilydd mewn gwesty cyfforddus?



Unwaith eto eleni daeth criw da ohonom ar draws tair eglwys yr Ofalaeth i Westy'r Llwyn Iorwg am ginio Dydd Sul ar 20 Hydref 2019. Roedd pawb mewn hwyliau arbennig o dda, yn enwedig ar ôl clywed sgôr Cymru yn erbyn Ffrainc yng Nghwpan y Byd!

Roedd canmol mawr ar y bwyd, rhaid dweud. Y cigoedd a'r llysiau'n hynod o dyner a'r crymbl at ddant sawl un! Does ryfedd felly fod y sgwrs mor felys!



Roedd hi'n dda gweld fod Walford Davies, tad Beti-Wyn, wedi gallu ymuno â ni, a ninnau'n meddwl llawer amdano yntau â'r teulu yn eu colled a'u hiraeth. Mynegodd Beti-Wyn ei gwerthfawrogiad i aelodau'r Ofalaeth am eu consŷrn a'u gofal drostynt fel teulu.

Cafwyd gair o ddiolch gan Sulwyn Thomas, Cadeirydd Swyddogion yr Ofalaeth, gan gyfeirio at Gapel Cana, yn arbennig, am y trefniadau.

Melys moes mwy oedd yn mynnu dod i'r cof wrth ymadael - awch am bryd arall yr un mor flasus y flwyddyn nesaf a'r un blas hefyd ar y cymdeithasu a'r sgwrsio!

Beth am droi at
Wefan yr Undeb?
www.annibynwyr.org



Orig! gan Gai Toms a'r Banditos

Nos Iau, 14 Tachwedd 2019 – 7.30
Theatr y Lyric Caerfyrddin



Mae Orig Williams / El Bandito wedi cario'r ddraig i bedwar ban byd. Dyn ffair, dyn reslo, dyn teulu, dyn mentro. Mae Gai Toms wedi cyfansoddi albwm sy'n mynd â chi ar daith drimbwl-drambwl o fywyd Orig, o 'Balmant Aur' Ysbyty Ifan i'r rymbly yn y jyngl yng Nghalabar, Nigeria. Dyma gyfle arbennig i weld perfformiad byw o'r albwm a noson fydd yn ddathliad o fywyd un o'n eiconau cenedlaethol.

Tocynnau: ☎ 0345 226 3510

CYFUNDEB ANNIBYNWYR GORLLEWIN CAERFYRDDIN



CWRDD CHWARTER
HENLLAN AMGOED
DYDD IAU 28 TACHWEDD 2019
Y Gynhadledd am 10.30
Cyfarfod y prynhawm am 1.30



DRWS AGORED

FESTRI'R PRIORDY
BORE IAU 21 Tachwedd 2019

Paned a Bisgedi am 10.30 / Myfyrdod Byr am 11
Croeso cynnes i bawb o bob capel ac eglwys



CARTREF PLAS Y DDERWEN

GWASANAETH NADOLIG

gyda'n Gweinidog
Dydd Gwener, 6 Rhagfyr 2019 am 2.00pm
Croeso cynnes i bawb

CWRDD DIACONIAID Y PRIORDY

Nos Fercher 27 Tachwedd 2019 am 7 yn y Festri

Os oes unrhyw faterion yr hoffech i'r diaconiaid eu trafod, yna rhowch
wybod i'r Ysgrifennydd Gohebol mewn da bryd
os gwelwch yn dda

TUDALEN BLAEN

Rheswm Margaret Evans dros ddewis *Gwawriodd y bore fel y dydd cyntaf....*

Gorffennaf 1974 oedd hi a minnau'n ddisgybl chweched dosbarth yn ysgol uwchradd Aberaeron. Ar ôl cynilo'n ofalus drwy'r gaeaf, cefais fynd ar drip ysgol arbennig iawn - mordaith addysgol ar y llong SS Nevasa i ymweld â rhai o wledydd y Baltig.

Roedd y tywydd yn fendigedig ar y bore Sul cyntaf wrth i'r capten gynnal gwasanaeth awyr agored ar fwrdd y llong i'r plant ysgol i gyd, yr athrawon a'r teithwyr eraill. Roedd criw mawr o blant o nifer o ysgolion Cymru yno a phawb yn morio canu dan haul môr y Baltig! Roedd yn brofiad gwefreiddiol.

Daeth y geiriau'n fyw yn haul y bore a chefais y synnwyr bod pob bore'n gwawrio o'r newydd ac yn cynnig rhodd feunyddiol i ni.



Cyfansoddwyr y Geiriau



Eleanor Farjeon



Nantlais

NADOLIG: Y STORI

*I'w pherfformio yn y Gymraeg a'r Saesneg
i bobl Caerfyrddin yng Nghapel y
Bedyddwyr Saesneg yn Heol Awst*



Profiad Nadolig Unigryw

Cerddoriaeth .. Asynnod Byw Fidio ... Actorion Lleol

9 – 14 Rhagfyr 2019

	11.00	12.00	14.00	15.00	16.00
Llun 09.12.19	Eng	Cym	Cym	Eng	
Mercher 11.12.19	Cym	Eng	Eng	Cym	
Gwener 13.12.19	Eng	Cym	Cym	Eng	
Sadwrn 14.12.19	Cym	Eng	Eng	Cym	Eng



DYDD MAWRTH (10.12. 18)

a

DYDD IAU (12.12.18)

*Archebu ar gyfer grwpiau'n unig
(9.30 yn bosibl i ysgolion)*

MYNEDIAD AM DDIM



DYLETSWYDDAU GOFALWR / GWRESOGWYR Y MIS



Tachwedd		Rhagfyr	
Gofalwr	Gwresogwr	Gofalwr	Gwresogwr
Philip Jones	Gwynfor Davies	Chris Lloyd	Gareth Gravell



BLODAU



Tachwedd	3		Rhagfyr	1	
	10	Mwynwen Jones		8	
	17			15	Beti-Wyn James
	24	Gloria Evans		22	
				29	

PARATOI'R BWRDD CYMUN

Tachwedd	3	Bore	Mari Jenkins a Thelma Evans
Rhagfyr	3	Hwyr	Enid Wyn Jones a Jan Davies



YMWELWYR



Tachwedd / Rhagfyr	Ein Gweinidog (Anrhegion Nadolig)
--------------------	-----------------------------------



DARLLENWYR



Tachwedd	3		Rhagfyr	1	Meinir Jones
	10	Llinos Jones		8	
	17	June Thomas		15	Philip Jones
	24	Lleucu Edwards		22	Alun Charles
				29	



CYHOEDDWYR



Tachwedd	Philip Jones	Rhagfyr	Chris Lloyd
----------	--------------	---------	-------------

Y diweddar Wynne Jenkins

Bu farw Wynne yn dawel yn ei gartref ar 11 Hydref 2019 wedi iddo frwydro'n ddewr a llawen ers sawl blwyddyn yn erbyn salwch blin.

Brodor o Langennech ger Llanelli oedd Wynne, ond wedi ymgartrefu yng Nghaerfyrddin ers dros hanner canrif.

Bu'n athro Cymraeg mewn ysgolion yn Aberdâr a Hwlfordd ac yn ddirprwy bennaeth yn Ysgol Gyfun Bro Myrddin, a mawr oedd parch y staff a'r disgyblion fel ei gilydd tuag ato.

Yn osgystal â bod yn addysgwr da, yn Gymro i'r carn, yn gefnogwr brwd y Scarlets, gwyddai Cymru gyfan a thu hwnt am ei ddawn arbennig fel artist. Ffurf a lliwiau tirlun ac adeiladau Cymru oedd ei gariad a'i ysbrydoliaeth, a chylllell oedd ei gyfrwng i gofnodi ar gynfas olygfeydd cofiadwy. Daeth o dan ddylanwad yr arlunydd a'i athro celf John Bowen, a bu'n edmygydd mawr o waith Kyffin Williams, Lucien Fried ac yn ddiweddarach Gwilym Pritchard.

Ond i ni yma yn Y Priordy, cofiwn amdano fel aelod gwerthfawr o deulu'r eglwys ac yn Gristion gloyw. Er i'w afiechyd ei rwystro rhag mynychu'r oedfaon dros y cyfnod olaf hyn, roedd yn aelod brwd o'r Dosbaeth Beiblaidd ac yn ffyddlon i'r *Drws Agored*. Gwnâi bob ymdrech i fynychu, hyd yn oed pan oedd yr ymdrech honno'n un fawr ar adegau. Roedd ymweld â Wynne ar yr aelwyd yn ffrainc, a phob ymweliad yn troi'n gwrdd.

Cynhaliwyd gwasanaeth breifat, yn ôl ei ddymuniad, yn Amlosgfa Llanelli ddydd Gwener, 25 Hydref 2019. Roedd wedi'i gynllunio'n fanwl gan Wynne ac yn rhoi clod a mawl i Dduw a heb dynnu sylw ato'i hunan o gwbl. Gwasanaethwyd gan ei Weinidog gyda chymorth Llŷr a Prys, Meinir Loader a'r Parchgn Desmond Davies ac Emyr Lynn Evans. Canwyd ei hoff emyn '*Mor Fawr Wyt Ti*' gan Rhian Williams i gyfeiliant Berwyn Jenkins.

Wedi'r oedfa, aeth y cwmni yn ôl i'r Capel Bach yn ymyl Bethesda, Llangennech am luniaeth. Yn ogystal â phaned a chwmni da, baint hefyd oedd cael cyfle i edrych ar hen lun o ddiaconiaid Bethesda, gyda'u Gweinidog, Y diweddar Barchg Maurice Loader, ac yn eu plith, y Wynne Jenkins ifanc, a etholwyd i'r ddiaconiaeth yn 19 oed. Ni phallodd ei ffyddlondeb i'w eglwys a'i Arglwydd ar hyd ei oes.

Estynnwn ein cydymdeimlad dwysaf ag Eira, Llŷr a Prys a'r teulu cyfan.

Coffa da am un o blant anwylaf Duw. Bonheddwr wrth natur a Christion trwy ras.

CYDYMDEIMLAD

Estynnwn ein cydymdeimlad ag Eira Phillips ar golli'i brawd yng nghyfraith, y Dr Arthur Boyns, ar 28 Medi 2019 Roedd yn gyn feddyg teulu ym Mlaenau Ffestiniog. Meddylawn am ei briod, ei blant a'i wyron a'r teulu cyfan yn eu colled.

Cyfeiriwyd yn ein rhifyn diweddaf at golli'r Parchedig W J Edwards, Bow Street, un o gyn weinidogion ein Gofalaeth. Mynegwn ein cydymdeimlad dwysaf â Gwenda a'r merched, Nest, Lowri a Non, a'r teulu cyfan yn eu profedigaeth. Roedd cynrychiolaeth dda o'r Ofalaeth yn yr angladd yng Nghapel y Garn, Bow Street ar Ddydd Mawrth 8 Hydref 2019, a chymerodd Sulwyn Thomas ran yn y gwasanaeth yn absenoldeb anorfod ein Gweinidog. Diolch hefyd i Sulwyn am ysgrifennu teyrnged i 'WJ' yn y rhifyn hwn o'r Papur.

Tristwch oedd clywed y newyddion am golli mam ein Gweinidog yn ddisymwth iawn, sef Mary Davies, Ynysforan, ar 4 Hydref 2019, yn Ysbyty Treforys. Ein cydymdeimlad dwys â Walford, ei gŵr, Beti-Wyn a'r merched Elin Wyn a Sara Llwyd, yn eu colled a'u hiraeth. Roedd cynrychiolaeth gref o'r Ofalaeth yn yr angladd yng Nghapel y Nant, Clydach ar Ddydd Iau 17 Hydref 2019 dan ofal Robat Powell, Arweinydd yr Eglwys. a'r Parchedig Dewi Myrddin Hughes. Byddai Mary Davies yn dod yn gyson i'n hoedfaon yn yr Ofalaeth pan fyddai hi a'i gŵr yn ymweld â Chaerfyrddin. Bydd atgofion melys iawn gennym amdani. Mae'n diolch yn fawr i Rhodri Evans, Cwmni Bysiau Ffoshelig, am baratoi cludiant rhad i ni i'r gwasanaeth yng Nghlydach ac i Elfed Lewis am wirfoddoli i'n gyrru yno. Gwerthfawrogyd hyn yn fawr. Diolch hefyd i Glenys Thomas, Rhian Mair Evans, Marlene Jones a Joanne Richards am ofalu am y trefniadau ar ran capeli'r Ofalaeth.

DIOLCH YN FAWR

Diolch i Beti-Wyn, Philip Jones, Gwynfor Davies, Mari Jenkins, Lleucu Edwards, Aled Evans a'r Dr Myfanwy Jones am y lluniau'r mis hwn.





ANFONWN ein cofion cynhesaf at Elain Davies sydd yn yr ysbyty. Dymunwn yn dda iddi ac i bawb arall sy'n anhwylyd y dyddiau hyn.

Ar **Stiwdio gyda Nia Roberts** ar **Radio Cymru** cofiwyd yn garedig a gwerthfawrogol am y diweddar Wynne Jenkins drwy ailddarlledu rhan o sgwrs a gynhaliwyd ag e ar achlysur dathlu'i ben-blwydd yn 80 oed.

Bu Elinor Wyn Reynolds yn rhan o **Her 100 Cerdd Llenyddiaeth Cymru** yn Nhŷ Newydd Llanymstumdwy. Yr her oedd bod pedwar bardd, sef Elinor Wyn, Matthew Tucker, Beth Celyn a Dyfan Lewis, yn gorfod ysgrifennu 100 cerdd mewn 24 awr. Cafwyd llawer o hwyl a llwyddwyd i gyflawni'r gamp!



Bu Elinor ar **Raglen Alun Hughes** ar **Radio Cymru** yn sôn am y profiad.

Bu Elinor hefyd ar **Raglen Dei Tomos** ar **Radio Cymru** a **Heno** ar **S4C** yn sôn am ei nofel gyntaf sydd newydd gael ei chyhoeddi, sef **Gwirionedd** ac mae ychydig o fanylion amdani mewn man arall yn y Papur hwn.

Mae **Llyfrau Llafar Cymru** yn dathlu deugeinfed blwyddyn ei sefydlu eleni. Breuddwyd Rhian Evans oedd y cynllun hwn ym 1979 ac mae hi wrthi'n brysur ar hyn o bryd yn ysgrifennu hanes y fenter hon. Mae'r cynllun yn rhoi cyfle i bobl sydd â nam ar eu golwg i fwynhau llyfrau a hynny'n ddi-dâl. Mae'r gwasanaeth ardderchog hwn yn dibynnu'n llwyr ar haelioni unigolion, eglwysi a mudiadau yn ogystal â nifer o gynghorau sir a bro ledled Cymru. Pen-blwydd hapus iawn i Lyfrau Llafar Cymru. Bu Rhian yn sôn am y dathlu ar **Raglen Siân Cothi** ar **Radio Cymru** pan gafodd ei holi gan Rebecca Hayes.



Gwyddom yn dda am beryglon parcio ar balmentydd i gerddwyr a bu Rhian Evans hefyd yn sôn am ei phrofiad yn y cyswllt hwn mewn eitem ar **Newyddion 9** ar **S4C**.

Anfonwn ein cofion cynnes at Iris Humphrey Davies sydd wedi symud i Gartref Preswyl Parc y Llyn yn Nhreamlod (Ambleston), ger Cas-blaidd. Dymunwn yn dda iawn iddi ar ei haelwyd newydd.

Clywyd Menna Elfyn yn darllen un o'i cherddi, sef *lâ Cymru / Welsh Ice*, sy'n trafod newid hinsawdd, yn ystod rhaglen yn y gyfres **Poetry Please** ar **Radio 4**. Y gwestai a fu'n dewis ei hoff farddoniaeth yn y rhaglen hon oedd Owen Sheers, y bardd a'r awdur a'r sgriptiwr Cymreig a aned yn Suva, Ffigi ond a godwyd yn Y Fenni. Mae'n arbennig o hoff o'r gerdd *lâ Cymru*. Fe, gyda llaw, oedd y bardd cyntaf i'w benodi'n Awdur Preswyl dros Undeb Rygbi Cymru.

Bydd y rhai ohonoch sy'n gwyllo'r gyfres **Pobl y Cwm** ar **S4C** yn gyson wedi gweld Osian Hayes yn cymryd rhan fel bachgen yn un o'r rhaglenni'n ddiweddar, gan wneud hynny'n gampus!


Bu Dewi Snelson yn siarad ar **Raglen Ifan Evans** ar **Radio Cymru** am ei brofiad yn rhedeg Hanner Marathon Caerdydd. Amser Dewi, gyda llaw, oedd 1 awr 36 munud. Ei her nesaf fydd cymryd rhan mewn marathon yn Fflorens yn yr Eidal ddiwedd mis Tachwedd. Pob lwc! Edrychwn ymlaen at glywed yr hanes - a'r amser!



Roedd testun diddorol gan Peter Hughes Griffiths yn y ddarlith a draddododd yn ddiweddar yn Amgueddfa Wlân Dre-fach Felindre ar Dri Cherddor Lleol fel rhan o raglen Pentref Diwylliant Sir Gâr 2019. Y tri cherddor oedd Daniel Jenkins - Prifathro Ysgol Gynradd Pen-boyr ac arweinydd Côr Meibion Bargod Teifi, enillwyr y brif gystadleuaeth Corau Meibion (60 i 80 o leisiau) yn Eisteddfod Genedlaethol Caerfyrddin 1911, Albert Evans - Siopwr Lleol a ddilynodd Daniel Jenkins fel arweinydd y côr am 36 mlynedd a. Sefydlydd ac Arweinydd Seindorf Arian Dre-fach Felindre a hyfforddwr canu yn yr ardal, a William Davies (Wil Penlon) - yr unig ganwr proffesiynol a godwyd yn y pentref. Ar ôl gyrfa o 10 mlynedd yn Llundain ac ymuno â chwmnïau'n teithio'r wlad daeth yn ôl i fyw i'r pentref gan drefnu operetas i bobl leol ganu a'r Tivy Side Master Singers.

Yn Neuadd Dewi Sant, Caerdydd yn ddiweddar cafodd goreuon y byd ffilm a theledu eu gwobrwyo yn seremoni **BAFTA Cymru 2019**. Yn eu plith roedd Fflur Dafydd a dderbyniodd enwebiad ar gyfer awduron am y gyfres **35 Awr**, Llongyfarchiadau mawr iddi.





Y SULLIADUR



Tachwedd	3	<i>Bore</i> <i>Hwyr</i>	Cwrdd Plant a Phobl Ifainc gyda'n Gweinidog yn seiliedig ar Sul yr Urdd gydag eitemau gan Adran Ffynnon-ddrain. Derbyn aelodau newydd. <i>Bore Coffi Therapies Unite</i> i ddilyn Ein Gweinidog	Cymun
	10	<i>Bore</i>	Ein Gweinidog	
	17	<i>Bore</i>	Ein Gweinidog	
	24	<i>Bore</i> <i>P'nawn</i>	Y Parchedig Carwyn Siddal Oedfa i'r Ofalaeth gyda'r Parchedig Carwyn Siddal yng Nghana am 2	

Rhagfyr	1	<i>Bore</i> <i>Hwyr</i>	Ein Gweinidog Ein Gweinidog Casgliad at Ganolfan Galw-i-mewn Eglwys y Bedyddwyr Saesneg Cynhelir yr Oedfaon yn y Ffestri	Cymun
	8	<i>Bore</i> <i>P'nawn</i>	Ymarfer i'r Plant a'r Bobl Ifainc am 10 y bore ar gyfer y Gwasanaeth Nadolig Gwasanaeth Nadolig y Priorddy am 2. Diod ysgafn a briwgacs i ddilyn. Casgliad at yr Ysgol Sul. Casgliad olaf er cwblhau'r cyfrifon am y flwyddyn	
	15	<i>Bore</i> <i>Hwyr</i>	Ein Gweinidog Gwasanaeth Plygain Merched y Wawr am 7.30	
	22	<i>Bore</i> <i>Hwyr</i>	Oedfa i'r Ofalaeth yng Nghana gyda'n Gweinidog Dathlu'r Nadolig yn y Gymuned ym Mancyfelin gyda'n Gweinidog am 6	
	29	<i>Bore</i>	Oedfa i'r Ofalaeth ym Mancyfelin gyda'n Gweinidog	

BORE NADOLIG

Oedfa Deulu yn y Priorddy am 9 gyda'n Gweinidog a'r Bobl Ifainc

CALENDR Y PLANT A'R BOBL IFAINC								
✓ Ysgol Sul PIP - Pobl Ifainc y Priorddy - Dim Ysgol Sul CP – Cwrdd Plant U – Sul yr Urdd YN- Ymarfer Gwasanaeth y Nadolig GN – Gwasanaeth y Nadolig								
Tachwedd				Rhagfyr				
3	10	17	24	1	8	15	22	29
U	✓	✓ PIP	✓ PIP	✓YN	YN -10 GN - 2	-	-	-